

Cyfarfod:	Bwrdd Pensiwn
Dyddiad:	12/10/2026
Teitl:	STRATEGAETH LLYWODRAETHU AR GYFER CRONFA BENSIWN GWYNEDD
Awdur:	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau
Pwrpas:	Cyflwyno'r Strategaeth Lywodraethu ddrafft ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd i'r Bwrdd Pensiwn i'w hadolygu a'i chraffu cyn ei chyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau i'w chymeradwyo'n ffurfiol.
Argymhelliad:	Gofynnir i'r Bwrdd Pensiwn: 1. Adolygu a chraffu ar y Strategaeth Lywodraethu ddrafft. 2. Darparu unrhyw sylwadau neu argymhellion i'w hystyried gan swyddogion. 3. Nodi y gallai fod angen mân ddiwygiadau pellach yn dilyn penodi'r Uwch Swyddog CPLIL. 4. Cefnogi cyflwyno'r Strategaeth Lywodraethu ddiwygiedig i'r Pwyllgor Pensiynau i'w chymeradwyo'n ffurfiol.

1. Pwrpas yr Adroddiad

Cyflwyno'r Strategaeth Llywodraethu ddrafft ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd i'r Bwrdd Pensiwn i'w hadolygu a'i chraffu cyn ei chyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau i'w chymeradwyo'n ffurfiol. Mae'r strategaeth ddrafft wedi'i chynnwys yn **Atodiad A**.

2. Cefndir

Mae egwyddorion llywodraethu da o fewn y CPLIL yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddu gynnal trefniadau llywodraethu clir a dogfennu sut y caiff y Gronfa ei llywodraethu, ei rheoli a'i monitro. Datblygwyd y Strategaeth Lywodraethu ddrafft felly er mwyn dod â fframwaith llywodraethu, cyfrifoldebau, polisiau a threfniadau goruchwyllo'r Gronfa ynghyd mewn un ddogfen.

Mae'r Strategaeth yn nodi amcanion llywodraethu'r Gronfa, ei strwythur llywodraethu, rolau a chyfrifoldebau, gofynion hyfforddiant, trefniadau rheoli risg a'i fframwaith gwelliant parhaus.

Mae'r Strategaeth wedi'i datblygu gan ystyried gofynion llywodraethu cyfredol y CPLIL, yr argymhellion sy'n deillio o'r Adolygiad Llywodraethu Da a'r diwygiadau llywodraethu sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar y CPLIL.

3. Y Sefyllfa Bresennol

Dyma'r drafft cyntaf o'r Strategaeth Lywodraethu ac mae swyddogion yn ceisio barn y Bwrdd Pensiwn cyn cyflwyno'r ddogfen i'r Pwyllgor Pensiynau i'w chymeradwyo.

Gwahoddir aelodau'r Bwrdd i adolygu'r ddogfen a darparu unrhyw sylwadau, arsylwadau neu welliannau arfaethedig er mwyn sicrhau bod y Strategaeth yn adlewyrchu trefniadau llywodraethu'r Gronfa yn briodol ac yn cefnogi llywodraethu a goruchwyliaeth effeithiol.

Bydd aelodau'n nodi bod yr adran sy'n ymwneud â rôl a chyfrifoldebau'r Uwch Swyddog CPLIL wedi'i chadw ar lefel uchel yn fwriadol ar hyn o bryd. Mae'r Gronfa yn aros ar hyn o bryd am benodiad yr Uwch Swyddog CPLIL, a rhagwelir y gallai fod angen mân ddiwygiadau i'r Strategaeth unwaith y bydd y penodiad wedi'i wneud a chyfrifoldebau manwl y swydd wedi'u cadarnhau. Mae'r Strategaeth yn nodi'n benodol y bydd angen diweddarau'r adran hon yn dilyn penodi'r Uwch Swyddog CPLIL.

Nid yw swyddogion yn rhagweld unrhyw newidiadau sylweddol i'r ddogfen yn ei chyfanrwydd, ond efallai y bydd angen rhai mireiniadau cyn cyflwyno'r fersiwn derfynol i'r Pwyllgor Pensiynau.

4. Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd Pensiwn:

1. Adolygu a chraffu ar y Strategaeth Lywodraethu ddrafft.
2. Darparu unrhyw sylwadau neu argymhellion i'w hystyried gan swyddogion.
3. Nodi y gallai fod angen mân ddiwygiadau pellach yn dilyn penodi'r Uwch Swyddog CPLIL.
4. Cefnogi cyflwyno'r Strategaeth Lywodraethu ddiwygiedig i'r Pwyllgor Pensiynau i'w chymeradwyo'n ffurfiol.